

GRIFFITH, JOHN ('Y Gohebydd'; 1821 - 1877)

Enw: John Griffith

Ffugenw: Y Gohebydd

Dyddiad geni: 1821

Dyddiad marw: 1877

Rhiant: Maria Griffith (née Roberts)

Rhiant: Griffith Griffith

Rhyw: Gwryw

Maes gweithgaredd: Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Dyngarwch; Argraffu a Chyhoeddi

Awdur: Frank Price Jones

Ganwyd 16 Rhagfyr 1821 yn Bodgwilym ger Abermaw, mab i Griffith a Maria Griffith - yr oedd ei fam yn ferch hynaf [John Roberts](#), Llanbryn-mair. Cafodd addysg elfennol yn Abermaw. Tua 1836 prentisiwyd ef gyda William Owen, 'Grocer, Draper and Druggist,' Abermaw, lle y bu hyd 1840. Wedi hynny bu'n gwasanaethu mewn siopau yn Scotland Road, Lerpwl, a Llangynog, Maldwyn.

Yn 1847 penodwyd ef yn gynorthwywr i [Syr Hugh Owen](#) gyda'i waith fel ysgrifennydd y Gymdeithas Addysg Gymreig, a symudodd i Lundain i fyw. Darfu'r gwaith hwn yn 1849, a bu wedyn am dymor yn cadw siop groser yn Greenwich ac wedyn yn Walworth.

Tra'n gweithio i [Hugh Owen](#), daeth i adnabod Llundain a llawer o brif Ryddfrydwyr y ddinas yn dda, oherwydd rhan o'i waith ydoedd galw arnynt i geisio eu cymorth ariannol i sefydlu Ysgolion Brutanaidd yng Nghymru. Defnyddiodd y wybodaeth hon pan ddechreuodd ysgrifennu erthyglau dan yr enw 'Wmffra Edward' yn *Cronicl* ei ewythr [Samuel Roberts](#) ('S.R.'). Ymddangosodd ei lythyr cyntaf i *Baner Cymru* ([Thomas Gee](#)) yn nhrydydd rifyn y papur hwnnw, 25 Mawrth 1857, ac ar awgrym '[Gwilym Hiraethog](#)' penodwyd ef yn 'Ohebydd Llundain' i'r *Faner*. Ei waith yn y swydd hon a enillodd iddo'r ffugenw 'Y Gohebydd,' ac a rydd iddo'i le yn hanes Cymru. Ef oedd prif 'ohebydd arbennig' ei ddydd yng Nghymru, a gwnaeth ei lythyrau i'r *Faner* lawer iawn i ehangu gorwelion ei ddarlennwyr o Gymry uniaith. Cefnogodd y rhan fwyaf o'r mudiadau rhyddfrydig o ganol y ganrif ymlaen - yn ei lythyrau ac mewn cynadleddau a chyfarfodydd cyhoeddus. Yn eu plith ceir yr ymdrech am addysg elfennol ac uwchradd yng Nghymru : yr oedd yn aelod o'r pwyllgor a godwyd i ystyried sefydlu Coleg Aberystwyth ac wedi hynny yn aelod o gyngor y coleg. Gweithiodd dros yr ymgeiswyr Rhyddfrydol yn etholiad 1868, ac wedi hynny efydoedd prif symbylydd y gymdeithas a sefydlwyd i amddiffyn a chynorthwyo tenantiaid Ceredigion a drowyd o'u ffermydd ar ôl yr etholiad. Cefnogodd ymdrechion [Henry Richard](#) i sicrhau'r bleidlais ddiregel. Yr oedd hefyd yn gefnogydd selog i'r eisteddfod ac yn brif gychwynnydd y symudiad i ailsefydlu Cymdeithas y Cymmrodorion yn 1873.

Anfonodd ddisgrifiadau byw iawn o'i amryw deithiau i'r *Faner* : o'r Unol Daleithiau yn 1865-6 (yn arbennig soniodd am ryddhad y caethion), o Ffrainc (1867) (Arddangosfa Paris), ac o Awstria (1873), lle bu'n ymweld â'r arddangosfa yn Vienna. Yn 1875 talodd Samuel Morley ei gostau i fynd i'r Eidal er lles ei ieuchyd a fu'n fregus iawn ar hyd ei oes. Yn 1875 casglwyd tysteb

o £734 17s. 0c. iddo. Annibynnwr ydoedd yn ei grefydd, a bu'n gefnogwr selog i'r mudiad i ffurfio Undeb Annibynwyr Cymru. Bu farw 13 Rhagfyr 1877 yn nhy ei chwaer yn Lerpwl : claddwyd ef yn Llangollen.

Awdur

Frank Price Jones, (1920 - 1975)

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies (1894)*, 72-4

Baner ac Amserau Cymru, 19 a 26 Rhagfyr 1877

Y Geninen, 1890, 186-9

Y Cronicl, 1878, 60-2 (beirniadaeth gan ei ewythr 'J.R.')

'Y Gohebydd' [John Griffith] *cofiant a dyfyniadau o'i lythyrau fel gohebydd Llundain "Baner ac amserau Cymru"* (Dinbych 1905)

Darllen Pellach

Archifau LIGC: [NLW MS 24173B: American autograph album of John Griffith \(Gohebydd\), 1866-1868](#)

Erthygl Wicipedia: [John Griffith](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [49053809](#)

Wikidata: [Q13129335](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

